**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion y cyfarfod ar 8 Rhagfyr 2022**

**Cyfarfod Hybrid**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mike Elgin (Maer)
Y Cynghorydd Mike Kermode (Dirprwy Faer)
Y Cynghorydd Ivor Beech
Y Cynghorydd Ann Davies (rhithiol)
Y Cynghorydd Reg Davies
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Y Cynghorydd Gareth Rowlands
Y Cynghorydd Val Simmons
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Rob Williams
Clerc y Dref
Cynorthwyydd Clerigol /Clerc Cofnodion (rhithiol)

Hysbyswyd yr Aelodau bod y cyfarfod yn cael ei recordio, sain yn unig.
Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Jackie Burnham

**2. Datgan Buddiant**
Dim datganiadau o fuddiant
Roedd y Clerc wedi drafftio newid i'r ffordd mae'r cyngor yn rheoli ei Gofrestr o Fuddiannau Aelodau er mwyn i'r Cyngor ei drafod a'i gymeradwyo. Roedd wedi rhannu'r cynnig drafft â'r Aelodau. Esboniwyd y rhesymau dros y newid hwn a'r hyn roedd yn ei olygu i'r Aelodau, byddai'n cynnwys cofnodi holl fuddiannau aelodau a godwyd yn ystod cyfarfod a diweddaru'r gofrestr yn fisol ar wefan y cyngor. Nid yw'r gofrestr gyffredinol o fuddiannau aelodau a gynhyrchir cyn pen 30 diwrnod ar ôl etholiad yn ofynnol. Mae'r tîm cyfreithiol yn Un Llais Cymru wedi gwirio'r fethodoleg ac mae'n cael ei defnyddio gan sawl Cyngor Cymuned/Tref ar draws Cymru. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y dylid cymeradwyo'r cynnig, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd**.

**3. Materion Brys**
Roedd y maer wedi derbyn un mater brys a byddai'n ei drafod o dan Rhan 2

**4. Materion yr Heddlu**

Roedd y PCSO Phil Roberts wedi ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ond roedd ei adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei ddosbarthu. Roedd y Rhingyll Dros Dro Nia Williams wedi anfon ei hymddiheuriadau hefyd.

Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau, a dywedodd y Clerc fod PCSO Roberts wedi cael ei wahodd i fynychu'r digwyddiad Carolau o amgylch y Goeden.

**5. Cofnodion**

**Cyfarfod Cyngor y Dref 10 Tachwedd 2022**

Yn amodol ar 3 newid gramadegol bach, cynigiwyd y Cofnodion fel cofnod cywir gan y Cynghorydd Arwel Roberts, eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. **Penderfynwyd**.

Cafodd y cofnodion eu llofnodi trwy hyn

**6. Materion yn Codi**

a. **Materion yr Heddlu** – Roedd Swyddogion Gorfodaeth Parcio wedi'u gweld yn cadw golwg ar Stryd Gwindy ar ôl i breswylwyr fynegi pryderon am barcio.

b. **Hyfforddiant Cod Ymddygiad** – Nid yw'r Clerc wedi derbyn dyddiad hyfforddiant eto felly gofynnodd i'r Aelodau ystyried os na fydd y Cyngor wedi derbyn dyddiad erbyn diwedd y flwyddyn, yna y dylai archebu cwrs Un Llais Cymru ac anfon yr anfoneb i CSDd. Fel Cynghorydd Sir, roedd y Cynghorydd Ann Davies wedi cael gwybod y gellir dilyn cwrs Cod Ymddygiad unrhyw bryd yn ystod cyfnod o 5 mlynedd yn dilyn etholiad. Ychwanegodd fod CSDd yn cynnal cwrs wyneb yn wyneb ar 20 Rhagfyr. Nid oedd yr Aelodau yn siŵr pwy oedd yn gymwys i fynychu, felly bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau i weld a all Cynghorwyr Tref fynychu. Cyfeiriodd y Cynghorydd Gareth Rowlands at bwysigrwydd y cwrs a'r ffaith ei fod yn orfodol, a dywedodd y dylai Cyngor y Dref fynd ati i drefnu cwrs gydag Un Llais Cymru os na dderbynnir dyddiad gan CSDd erbyn 31 Rhagfyr, ac y dylai CSDd dalu amdano. Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd**.

   Dywedodd un Aelod ei fod wedi bod ar nifer o gyrsiau yn barod, ac mewn ymateb i gwestiwn trafodwyd cynnwys y cwrs Cod Ymddygiad, yn ogystal â lleoliad a dyddiadau cyfleus.

c. **Castell Rhuddlan –** Roedd y maer wedi cysylltu â Cadw ynglŷn â thrwsio'r ail bolyn fflag ond nid oedd wedi derbyn ymateb boddhaol hyd yma. Roedd yr Aelodau yn dal i dderbyn cwynion nad yw'r baneri yn chwifio felly cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode, os bydd Cadw yn cytuno, y dylai'r Cyngor gynnig rhoi cefnogaeth ariannol i dalu am drwsio'r ail bolyn. Eilwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. **Penderfynwyd**.

   Ymhellach, cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid gofyn i'r Arglwydd Langford gefnogi'r cam hwn ac y dylid anfon copïau o unrhyw negeseuon e-bost rhwng y Cyngor a cheidwad y castell ato. Eiliwyd gan y Cynghorydd Reg Davies. **Penderfynwyd**.

d. **Arwyddion Baw Ci** – mae'r rhain wedi'u harchebu, ac rydym yn aros iddynt gael eu danfon. Roedd y maer wedi ymweld â'r preswylydd yn Rhodfa Dolennau a oedd wedi cwyno am un o'r arwyddion. Esboniodd beth oedd natur y gŵyn i'r Aelodau ond

roedd wedi sylwi bod coeden yn cuddio'r arwydd, yn baradocsaidd. Nodwyd hefyd bod y goeden yn hongian dros y palmant ac y bydd angen rhywfaint o waith cynnal yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod gwestiwn am gyfeiriad y map ar yr arwydd oherwydd dylai fod yn wahanol ar bob lleoliad. Gan fod hyn wedi cael ei drafod mewn cyfarfod blaenorol ac mae wedi'i gynnwys yn y Cofnodion blaenorol, cafodd unrhyw ymholiadau eu cyfeirio at y Cofnodion hynny.

**e.** **Yr Eisteddfod Genedlaethol** – Derbyniwyd ymateb ynglŷn â chynnal yr eisteddfod yn Rhuddlan. Mae CSDd wedi dangos diddordeb ac mae'n ystyried cynigion Cyngor y Dref.

**f.** **Malurion Coed yn yr afon** – Derbyniodd y Clerc ymateb llafar a oedd yn dweud bod CNC yn monitro malurion o'r fath yn yr afon ac mai cyfrifoldeb y perchennog tir yw eu symud, ond y bydd yn cymryd camau i orfodi'r perchennog tir i'w symud os oes perygl o lifogydd. Rydym yn aros am ymateb ysgrifenedig. Arweiniodd hyn at drafodaeth hir am yr ymateb, gan gynnwys:-

- Pa mor anodd yw hi i'r perchennog tir symud malurion o'r fath, graddfa'r gwaith a'r gost
- Pryder ynglŷn ag ymateb CNC
- Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith bod malurion coed wed cael eu symud yn y gorffennol
- Nodwyd y bydd CNC yn symud y malurion os oes perygl o lifogydd i eiddo preswyl.
- Mae angen i'r perchennog tir a CNC gydweithio'n well.
- Efallai y bydd swyddfa CNC ar Ffordd Abergele yn fan defnyddiol i holi ynglŷn â symud y malurion.

Penderfynodd y Cyngor aros am yr ymateb ysgrifenedig cyn gweithredu. **Penderfynwyd.**

**g.** **Cwrs Cymorth Cyntaf** – Dydd Sadwrn, 10 Rhagfyr, 9.30am – 12.30 am

**h.** **Gwaith atgyweirio yn y maes chwarae** – Mae cromenni'r Gampfa Awyr Agored yng Nghae'r Llyngesydd wedi cyrraedd ac wedi cael eu gosod. Gosodwyd dau ddarn o offer gyda chymorth y grant Symiau Gohiriedig a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar y wefan. Gofynnwyd i Brian Jackson, gweithiwr metel, roi dyfynbris am gatiau mynediad newydd.

**i.** **Gwefan Dwristiaeth** – Mae'r gwaith wedi'i roi yn nwylo Web Services a chynhelir cyfarfod cychwynnol ym mis Ionawr.

**j.** **Pobl agored i niwed –** Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod CSDd wedi rhyddhau gwybodaeth am safleoedd 'Mannau Cynnes' yn Sir Ddinbych.

**k.** **Goleuadau Nadolig –** Cafodd y goleuadau eu cynnau gan brif fachgen a phrif ferch Ysgol y Castell ac roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn.

**l.** **Canolfan Gymunedol** – Trefnwyd cyfarfod ar gyfer dydd Iau, 5 Ionawr 2023, gyda'r Ymddiriedolwyr i drafod cyfleoedd cymorth posibl.

**m.** **Agor Hwb Rhuddlan** – mae'r agoriad wedi'i oedi nes bydd Wi-Fi wedi cael ei osod, disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Ionawr.

n. **Deffibriliwr Tan y Bryn** – Rhoddwyd gwybod i'r cartref na all y Cyngor gynnig grant i unigolyn felly mae'r cartef preswyl yn ystyried y mater ymhellach.
o. **Cystadleuaeth y Busnes a'r Tŷ â'r addurniadau Nadolig gorau** – Y bwriad yw beirniadu'r gystadleuaeth yr wythnos hon, bydd y beirniaid gwirfoddol yn penderfynu ar yr amseroedd beirniadu.
p. **Cystadlaethau Chwaraeon Cwpan y Byd** – Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi anfon llythyr yn diolch i'r Cyngor am y llongyfarchiadau. Nid yw llythyrau wedi cael eu hanfon eto at dîm Merched Rygbi'r Undeb Cymru a thîm Dynion Rygbi'r Gynghrair Cymru sydd ill dau yn cystadlu yng nghystadlaethau Cwpan y Byd.
q. **Llifoleuadau'r MUGA** – Yn unol â phenderfyniad cyfarfod mis Tachwedd i ystyried newid y goleuadau i rai LED a darparu switsh i ddiffodd y goleuadau yn awtomatig, derbyniwyd dyfynbris o £12k. Mae'r cyngor yn aros am ddyfynbris arall. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa mai'r nod oedd arbed arian ar gostau ynni a'i gwneud yn haws defnyddio'r goleuadau. Dywedodd Aelod fod tîm pêl-droed Rhuddlan yn defnyddio cae pob tywydd Llanelwy gan nad oes llifoleuadau yng Nghae'r Llyngesydd a gofynnwyd a fyddai'n bosibl gosod llifoleuadau yn y cae pêl-droed. Eglurodd Aelod arall fod cyfamodau hanesyddol ar Gae'r Llyngesydd yn atal y datblygiad hwn gan fod y Cae wedi cael ei roi fel rhodd i'r gymuned ei ddefnyddio at ddibenion hamdden cyffredinol. Er bod ardal o'r cae wedi'i osod ar gyfer chwarae pêl-droed, ni fyddai'r datblygiad i greu maes pêl-droed mwy ffurfiol gyda llifoleuadau yn dderbyniol. Ymchwiliwyd i'r mater hwn yn y gorffennol a chafodd ei wrthod am yr un rheswm.
r. **Y defnydd o Hwb Rhuddlan** – Cafwyd trafodaeth hir ond defnyddiol, gofynnwyd nifer o gwestiynau dilys, trafodwyd y materion, cadarnhawyd y prosesau a ddefnyddiwyd, a'r union gostau. Mae crynodeb o'r drafodaeth yn dilyn.

   Roedd Clwb Pêl-droed y Dreigiau / Dragons FC yn wreiddiol wedi gofyn i Gyngor y Dref ei helpu drwy ddarparu cyfleusterau newid a thoiledau ar gyfer eu haelodau ifanc. Trafododd y Cyngor y mater hwn a phenderfynwyd darparu cyfleusterau cymunedol amlddefnydd y gall nifer o grwpiau eu defnyddio, gan gynnwys y clwb pêl-droed, yn hytrach na'r clwb pêl-droed yn benodol.

   Clywodd yr Aelodau fod y Cyngor wedi cytuno i brynu adeilad yr Hwb gan ddefnyddio benthyciad y sector cyhoeddus o £120,000 ac roedd telerau'r benthyciad yn golygu bod yn rhaid i'r adeilad fod yn un cymunedol amlddefnydd. Yn ystod cyfarfod diweddar gyda Chlwb Pêl-droed y Dreigiau, cadarnhawyd nad oedd y clwb yn dymuno defnyddio'r adeilad ar gyfer ystafelloedd newid ond fel rhywle i gysgodi a darparu lluniaeth.

   Gofynnodd Aelod a oedd y Cyngor wedi ymgynghori â phreswylwyr ynglŷn â'r angen am yr adeilad a'r defnydd ohono cyn ei brynu. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod hyn wedi digwydd ynghyd â phob proses briodol ofynnol arall er mwyn prynu'r adeiladau, ac mae hyn i'w weld yn y cofnodion. Cyfeiriodd Aelod arall at y ffaith fod gwir angen am y math hwn o gyfleuster cymunedol amlddefnydd ac roedd y safbwyntiau a fynegwyd gan Gynghorwyr a'r cyhoedd i gael toiledau cyhoeddus ar y cae wedi arwain Cyngor Tref Rhuddlan i wneud penderfyniad cadarnhaol i ddarparu cyfleuster cymunedol sydd ar gael i bawb. Roedd Aelod newydd-etholedig yn falch o

glywed yr esboniad gan nad oedd yn gynghorydd ar yr adeg pan gafodd y penderfyniadau gwreiddiol eu gwneud ac roedd bellach yn deall y rhesymeg.

Mynegodd rhai Aelodau eu pryder bod rhai aelodau o'r cyhoedd yn credu bod y prosiect wedi costio £500k ond nodwyd mai'r gwir gostau hyd yma yw tua £180k sy'n cynnwys £120k i brynu'r adeilad a £60k i'w adnewyddu. Mae'r Cyngor wedi gweithredu fel rheolwyr prosiect ar y holl waith adnewyddu.

Gofynnodd y maer yn garedig i'r Aelodau symud ymlaen i drafod eitemau eraill ar yr agenda yn dilyn y trafodaethau defnyddiol iawn uchod, gan obeithio eu bod wedi tawelu pryderon yr aelodau. Ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach ac aeth y cyfarfod yn ei flaen.

s. **Llythyr y Brenin** – Roedd y Clerc wedi rhoi copi o lythyr y Brenin, yn cyfeirio at farwolaeth ei fam y Frenhines Elisabeth II, ar yr hysbysfwrdd cymunedol.

Ar y cam hwn yn y cyfarfod, dywedodd y Cynghorydd Ann Davies fod ganddi bryderon ynglŷn â'r ffaith bod y maer wedi ei hatal rhag siarad a bod Aelodau eraill wedi cael mwy o amser i siarad; ychwanegodd y gellid ystyried hyn yn enghraifft o wahaniaethu ar sail rhyw. Gofynnodd i hyn gael ei nodi yn y Cofnodion. Ymatebodd y maer ar unwaith gan wrthod honiadau'r Cynghorydd Davies a dywedodd ei bod hi'n ailadrodd ei sylwadau blaenorol a bod y mater wedi cael ei drafod yn fanwl bellach, a'i fod yn awyddus i symud ymlaen i'r eitem nesaf ar yr agenda o ystyried y drafodaeth hir ar y materion hyn a'r amser sy'n cael ei neilltuo i gyfarfodydd y Cyngor.

**7. Gohebiaeth gan:**

**a. Y maer**

Roedd adroddiad y maer wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw.

- Roedd y maer yn falch o weld gweithgareddau Sul y Cofio yn cael eu cynnal mor drefnus a diolchodd i bawb a oedd wedi cymryd rhan a rhoi eu hamser i wneud y digwyddiad yn un mor llwyddiannus.
- Roedd Sound Radio, gorsaf radio gymunedol newydd, wedi gwahodd y maer i weld yr orsaf, ac roedd safon y stiwdio wedi gwneud cryn argraff arno. Mae'n bosibl y gallai Cyngor y Dref ei defnyddio ar gyfer prosiectau a digwyddiadau yn y dyfodol, ac awgrymodd efallai y byddai'r Clerc a chynghorwyr eraill yn hoffi mynd draw i gael golwg ar y cyfleusterau.
- Cyfeiriwyd yn fyr at sawl eitem arall yn ei adroddiad, e.e., y digwyddiad llwyddiannus i gynnau'r goleuadau Nadolig, diolchodd yn fawr i bawb a oedd wedi helpu i drefnu'r digwyddiad, a hefyd am lwyddiant y sesiwn casglu sbwriel.
- Yna gwahoddwyd y dirprwy faer i roi gwybodaeth i'r Aelodau am gynhadledd Amrywiaeth mewn Democratiaeth, Llywodraeth Cymru a chyfarfodydd gweminarau Credyd Pensiwn roedd wedi'u mynychu. Oherwydd prinder amser, byddai'r Cynghorydd Kermode yn darparu nodyn ysgrifenedig i'w drafod yn y cyfarfod ym mis Ionawr.

**Derbyniwyd yr adroddiad.**

**b. Clerc y Dref a diweddariad am Gynllun y Dref.**

Roedd y Clerc wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw.

Trafodwyd elfennau o'r adroddiad – yn benodol:-

- Oedi wrth gwblhau'r archwiliad allanol tan ddiwedd mis Ionawr 2023.
- Y swm ar gyfer 2023/2024 at ddibenion Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol fydd £30,207.
- Gofynnir yn garedig i Grŵp Cyfeillion Rhuddlan gyflwyno ei gais am arian drwy broses ymgeisio'r Cyngor.
- Roedd Grŵp Cymunedol Rhuddlan yn gofyn i'r Cyngor ddarparu cynwysyddion plannu newydd yn lle'r rhai sy'n eiddo i'r Cyngor y tu allan i'r fferyllfa, cost y cynwysyddion plannu o blastig 'eco' wedi'i ailgylchu fyddai £900 + taw. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid gofyn i gwmni cynnyrch pren Meifod ddarparu cynwysyddion pren. Eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts.

  Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y byddai cynwysyddion plannu o blastig wedi'i ailgylchu yn ddewis gwell, eiliwyd gan y Cynghorydd Ann Davies, **Penderfynwyd**.
- Derbyniwyd cwyn gan breswylydd ynglŷn â lleoliad cynhwysydd storio'r Hwb. Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r achwynydd i gadarnhau bod y broses gynllunio wedi'i dilyn.
- Derbyniwyd cwyn gan breswylydd ynglŷn â golwg flêr y dref, ac roedd y mater hwn wedi cael ei gyflwyno i'r ddau gynghorydd sir a'i gyfeirio at CSDd.
- Gofynnodd y Clerc a fyddai'r Aelodau yn hoffi ystyried cynnig gostyngiad i stondinwyr sy'n archebu lle ar gyfer pob un o'r 10 marchnad gymunedol yn 2023. Awgrymodd ostyngiad o 25%. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode, eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. **Penderfynwyd**.
- Mae Sustrans yn bwriadu cynnal cyfarfod cyhoeddus agored ym mis Ionawr i drafod y Cynllun Teithio Llesol.
- Trafodwyd cynnydd yr Hwb, yn benodol y ffaith bod angen i'r contractwr arbenigol ailedrych ar y problemau draenio dŵr wyneb gan fod archwiliadau tanddaearol wedi dangos na fydd y datrysiad gwreiddiol yn ymarferol. Cynhelir cyfarfod o Weithgor y Cyngor ddydd Llun. Bydd lliw sedd y toiled yn cael ei ailystyried i sicrhau ei fod yn addas i bobl â dementia. **Derbyniwyd yr adroddiad a'r diweddariad am y prosiectau**

**8 Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir**

a. Cyflwynodd y Cynghorydd Ann Davies adroddiad llafar

Mae Scottish Power yn gweithio yn Lôn y Pentref i gryfhau foltedd isel.

Mae CSDd wedi rhoi gwybod i'r Cynghorydd Davies y bydd syniad arall ar gyfer datrys problemau draenio'r fynwent yn cael ei rannu cyn bo hir. Roedd y Cynghorydd Mike Kermode yn dymuno cydnabod y gwaith da a wnaed gan y Cynghorydd Davies wrth fynd ar ôl y mater hwn ond roedd yn pryderu nad oedd CSDd wedi cysylltu â Chyngor Tref Rhuddlan yn uniongyrchol, a gofynnodd i'r Cynghorydd Davies rannu manylion y

datrysiad. Cadarnhaodd y Cynghorydd Davies y byddai hi'n gwneud hyn, gan ychwanegu nad CSDd oedd wedi cynnig y datrysiad ond yn hytrach Gareth Davies AS. Bydd rhywfaint o fuddsoddiad yn y problemau llifogydd ar Ffordd Newydd.

Cafwyd rhybudd gan CSDd ei fod yn cael trafferthion gyda'i system CRM (Gwasanaeth i Gwsmeriaid).

Mae problemau tamprwydd a llwydni yn effeithio ar stoc tai CSDd ond mae'r awdurdod yn dda iawn am ymdrin â phroblemau o'r fath.

Mae'r gwasanaeth Pwyntiau Siarad sy'n cael ei ddarparu gan CSDd yn y llyfrgell yn cynnig gwybodaeth a chymorth defnyddiol a rhoddodd y Cynghorydd Davies esboniad byr. Mae'r gwasanaeth ar gael bob dydd Iau, 2-4pm

Mae trafodaethau am gyllideb CSDd wedi dechrau ar gyfer 2023/4 ac mae rhagor o doriadau yn cael eu hadolygu, mae'r Cynghorydd Davies yn dymuno sicrhau na fydd unrhyw effaith ar gyllidebau llyfrgelloedd.

**Derbyniwyd yr adroddiad**

b. Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts wedi dosbarthu adroddiad ysgrifenedig

Bydd y Cynghorydd Roberts yn trefnu raffl yn y farchnad gymunedol (17 Rhagfyr) a byddai'n ddiolchgar am unrhyw gymorth gan Aelodau.

Mae'n bleser darllen adroddiad drafft Estyn ar Ysgol y Castell, dylai'r adroddiad fod ar gael i'r cyhoedd yn fuan iawn. Gofynnodd i'r Cofnodion gofnodi fod y Cyngor yn llongyfarch y staff a'r Pennaeth gweithredol am eu gwaith a'u hymroddiad. Mae'r ysgol wedi gwneud cais am safle bach ar Gae'r Llyngesydd os yw'n bosibl er mwyn datblygu eu hyfforddiant Sgiliau'r Coetir a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Y Cynghorydd Roberts yw Cadeirydd CSDd ar hyn o bryd ac roedd ei adroddiad yn cynnwys manylion am agweddau ar y rôl hon. Cyfeiriwyd at y digwyddiad Sul Dinesig a diolchodd i bawb a oedd yn bresennol.

**Derbyniwyd yr adroddiad**

**9. Cofnodion y Pwyllgor Digwyddiadau, 5 Rhagfyr 2022**

Fel Cadeirydd y pwyllgor hwn, gofynnwyd i'r Cynghorydd Mike Kermode gyflwyno'r Cofnodion.

Dywedodd wrth yr Aelodau y cynhelir cyfarfod cyhoeddus ar 24 Ionawr 2023 i gael syniadau gan grwpiau cymunedol a phreswylwyr Rhuddlan ar gyfer dathlu Coroni'r Brenin a pha gymorth fyddai ei angen gan y Cyngor. Bydd posteri yn cael eu darparu cyn bo hir i hysbysebu'r cyfarfod hwn a byddant yn cael eu rhoi ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithas. Estynnir gwahoddiad i'r holl Aelodau fynychu.

Cyfeiriodd at y digwyddiad Carolau o amgylch y Goeden Nadolig ar 18 Rhagfyr; bydd y gwaith paratoi yn dechrau am 3pm a bydd y digwyddiad yn dechrau am 4.30pm. Bydd yn cael ei gynnal ger y ganolfan gymunedol yn hytrach na'r tu allan i'r bwyty Tsieineaidd fel yn y gorffennol; ychwanegodd ei fod yn gobeithio y bydd yn dod yn ddigwyddiad blynyddol. Bydd yr arian a gesglir yn y pwcedi yn cael ei roi i'r ganolfan gymunedol.

Diolchodd y Cynghorydd Kermode i'r Aelodau hynny sydd eisoes wedi gwirfoddoli i gynnig help llaw a gofynnodd am ragor o wirfoddolwyr i gynorthwyo. Roedd y Clerc wedi derbyn cynigion o gymorth gwirfoddol gan siop Spar, a'r ganolfan gymunedol.

Diolchwyd i siop Spar a'r Ganolfan Gymunedol am gefnogi'r digwyddiad hwn.

**10. Datganiad a Chynllun Bioamrywiaeth.**

Roedd y Clerc wedi drafftio datganiad a chynllun er mwyn i'r Aelodau eu hadolygu a'u cytuno. Defnyddiwyd canllawiau Un Llais Cymru a chynghorau cymuned/plwyf/tref eraill fel sail ar gyfer y datganiad, ac roedd rhestr o'r pethau y gellid ystyried eu bod eisoes wedi'u cwblhau hefyd ar gael i'w chynnwys yn y cynllun. Trafodwyd camau gweithredu ac amserlenni awgrymedig gan yr Aelodau.

Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts y dylid mabwysiadu'r datganiad a'r cynllun, ac y dylid sefydlu is-bwyllgor. Eiliwyd gan y Cynghorydd Bleddyn Williams. **Penderfynwyd**.

**11. Gweithgareddau'r Fenter Iaith 2023**

Gwnaeth y Cynghorydd Arwel Roberts ddatgan buddiant a phenderfynodd beidio â siarad ar y materion.

Mae'r Fenter Iaith wedi anfon rhestr awgrymedig o rai gweithgareddau y gallai eu cynnal yn Rhuddlan petai'r Cyngor yn rhoi cymorth ariannol iddi. Darllenodd y maer yr awgrymiadau i'r Aelodau a thrafodwyd hwy, gan nodi'r dirywiad presennol yn y defnydd o'r iaith Gymraeg, a bod rhai gweithgareddau eisoes yn cael eu cynnal. Gofynnodd un Aelod a fyddai'n bosibl darparu rhagor o weithgareddau ac roedd y Cyngor yn barod i ystyried hyn petai'r Fenter Iaith yn dymuno cyflwyno rhagor o awgrymiadau. Nodwyd hefyd bod plant Cymraeg eu hiaith sy'n mynychu ysgolion Cymraeg yr ardal weithiau ddim yn defnyddio eu sgiliau iaith, a dywedodd yr Aelodau y byddai denu rhagor o swyddi i Gymru yn helpu'r sefyllfa hon.

Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid cefnogi'r 6 gweithgaredd a awgrymwyd, drwy roi'r £1650 a nodir ar y rhestr. Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd**.

**12. Cynllunio**

i) 44/2022/1021 – Stapletons, Princes Road – Gosod inswleiddiad allanol a ffenestri UPVC newydd.

Dim gwrthwynebiad

ii) 44/2021/1023 – Hen Ffowndri Rhuddlan, Ffordd yr Orsaf – Newid defnydd o ddiwydiannol cyffredinol i storio a dosbarthu agored.

Roedd y Cyngor wedi gwrthwynebu'r cais hwn yn y gorffennol yn 2021 ar y sail ei fod yn amharu'n weledol ar borth hanesyddol Rhuddlan, gan fod y safle mor agos at yr eglwys a'r castell. Roedd y cais yn cynnwys rhestr hir o ddogfennaeth, gan gynnwys atal llifogydd, a sylwadau gan CADW yn nodi nad oedd yn gwrthwynebu, ar yr amod bod coed yn cael eu plannu ar ochr ogleddol y safle.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar union leoliad y safle, plannu coed i guddio unrhyw effaith weledol andwyol, cynorthwyo â'n cynllun bioamrywiaeth, a gwaith gan Wasanaethau Cefn Gwlad CSDd. Cynigiodd y Cynghorydd Ann Davies y dylid ailadrodd gwrthwynebiad blaenorol Cyngor y Dref. Petai caniatâd cynllunio yn cael ei

roi, yna dylid cynnwys amod yn nodi y dylid plannu coed sy’n tyfu’n gyflym cyn y bydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau er mwyn cuddio’r effaith weledol andwyol.

Penderfynwyd gwrthwynebu’r cais oherwydd yr effaith weledol andwyol ar borth hanesyddol Rhuddlan. Sylwer ar yr amod os bydd caniatâd yn cael ei roi.

**13. Y Gyllideb a Materion Ariannol**

a. Ceisiadau Grant

i) Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych am gostau rhedeg amhenodol gwaith y rhanbarth a nodwyd er gwybodaeth i hwyluso trafodaeth yr Aelodau. Roedd llawer o gefnogaeth i waith yr Urdd yn Sir Ddinbych a dymuniad i gyfrannu ac awgrymwyd symiau gwahanol. Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts y dylai’r Cyngor ysgrifennu llythyr yn cefnogi’r cais mewn egwyddor, ond roedd angen darparu swm penodol, a’r defnydd a fyddai’n cael ei wneud o’r arian. Eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. **Penderfynwyd**.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd bod y Cyngor fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i fudiadau lenwi ffurflen gais grantiau’r Cyngor yn hytrach na chyflwyno ceisiadau cyffredinol. Fodd bynnag, gan fod y cais gan gorff llywodraethu cenedlaethol, cytunwyd ei fod yn dderbyniol.

ii) Roedd Elusen Ambiwlans Awyr Cymru wedi rhannu fideo trwy e-bost yn tynnu sylw at y newidiadau arfaethedig i’w gweithrediadau, er sylw’r Aelodau. Roedd yr Aelodau yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaeth ac roeddynt yn cytuno mewn egwyddor y dylid cyfrannu. Yn dilyn trafodaeth fer, cynigiodd y Cynghorydd Ann Davies y dylid cyfrannu £500, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd**.

Cytunwyd y byddai manylion am y cyfraniad hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor i gydnabod y derbynnydd a’r cyfraniad.

b. Rhestr Daliadau – Fe wnaeth y Clerc atgoffa’r Aelodau o sefyllfa grant Clwb Bowlio Rhuddlan lle’r oedd Cadwyn Clwyd wedi gwrthod y taliad ar y sail bod y gwaith wedi dechrau cyn cyhoeddi’r grant. Esboniodd sut roedd y sefyllfa wedi codi a gofynnodd am gymeradwyaeth yr Aelodau i wneud y taliad heb orfod talu’r grant yn ôl.

Gwnaeth y Cynghorwyr Mike Elgin ac Arwel Roberts ddatgan buddiant a gwnaethant adael y cyfarfod am gyfnod byr. Aeth y Dirprwy faer i’r Gadair ar gyfer yr eitem hon.

Roedd yr Aelodau yn awyddus i gefnogi’r clwb a thrafodwyd yr angen i anrhydeddu’r grant arian cyfatebol a gynigiwyd gan y Cyngor, a’r rhesymau dros ddechrau’r gwaith plannu yn gynnar. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid talu’r arian cyfatebol gwreiddiol o £391.54 yn ogystal â thalu am weddill yr eitemau ar y rhestr, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**

Ailymunodd y Cynghorwyr Elgin a Roberts â’r cyfarfod a chymerodd y maer y Gadair.

Yna cafwyd trafodaeth fer am y gwrych yng Nghoetiau Postol, elfen sydd eisoes wedi’i chynnwys yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn hon ond mae angen ymestyn y gwaith. Bydd yr estyniad hwn i’r gwaith yn cael ei wneud yn dilyn cyngor gan Jim Kilpatrick, Gwasanaethau Cefn Gwlad CSDd. Y gwrych dan sylw yw’r un y tu ôl i’r feddygfa a’r llyfrgell. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y dylid gofyn i CSDd roi

cyngor ar y gwaith sydd ei angen yn awr, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd**.

c. Fe wnaeth y Clerc atgoffa'r Aelodau fod angen iddynt gyflwyno syniadau ar gyfer prosiectau'r flwyddyn nesaf er mwyn pennu'r gyllideb a'r praesept fel bod modd llunio rhestr o'r gwaith a'i drafod yng nghyfarfod Praesept mis Ionawr. Yna aeth ymlaen i restru'r prosiectau hynny sydd eisoes yn hysbys neu sydd wedi cael eu hawgrymu. Roedd y rhain yn cynnwys goleuadau'r MUGA, y llwybr o amgylch Cae'r Llyngesydd a gatiau mynedfa newydd i'r maes chwarae, cymorth ariannol i'r llyfrgell, cynwysyddion plannu ar y Ffordd Fawr, cyfraddau Hwb Rhuddlan, cymorth posibl i ddigwyddiad Coroni'r Brenin, arian cyfatebol ar gyfer cyfleoedd symiau gohiriedig, a phrosiectau bioamrywiaeth posibl.

**14. Materion Cymunedol**

a. Dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts wrth yr Aelodau y bydd cyflwyniad yn cael ei wneud yn y cyfarfod ym mis Ionawr i nodi gwasanaeth hir a nodedig arweinydd Sgowtiaid Rhuddlan dros gyfnod o 40 mlynedd.

b. Roedd y Cynghorydd Val Simmons wedi derbyn sylwadau canmoliaethus am oleuadau Nadolig newydd y dref gan faer y Rhyl.

Hefyd, dywedodd y Cynghorydd Simmons fod adroddiadau am lawer o ddarnau o wydr wedi'u torri yn y dref. Roed CSDd wedi cael gwybod am hyn ac roedd wedi clirio'r gwydr yn gyflym iawn.

c. Trafodwyd achos unigolyn agored i niwed sy'n derbyn gofal yn Rhuddlan gan wasanaethau cymdeithasol CSDd; trafodwyd y mater mewn ffordd gydymdeimladol a diplomataidd. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yr unigolyn hwn wedi bod yn destun asesiad risg ac mae'r darparwyr gofal proffesiynol yn ystyried ei fod yn ddiogel ac nad yw'n peri unrhyw niwed. Eto i gyd, mae rhai pobl yn cwyno i gynghorwyr tref gan ddweud bod ei weithredoedd yn codi ofn arnynt. Roedd yr Aelodau yn cydnabod hawliau'r unigolyn ac roeddynt hefyd yn cydymdeimlo â sylwadau'r preswylwyr a bod angen cyfeirio'r sylwadau hyn at ei ofalwyr, ond roedd yn anodd gwybod sut i ymdrin â'r mater. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid ysgrifennu at Nicola Stubbing i'w hatgoffa am ofnau preswylwyr. Eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd.**
Fe wnaeth y Cynghorydd Ann Davies ymatal ei phleidlais.

d. Roedd y Cynghorydd Ann Davies hefyd wedi derbyn sylwadau canmoliaethus am y goleuadau Nadolig newydd yn y dref ac wedi cael ceisiadau i osod goleuadau mewn ardaloedd eraill yn y dref y flwyddyn nesaf, e.e. Tirionfa.

**Rhan 2 Cau allan y Wasg a'r Cyhoedd**

Yn rhinwedd Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, mae'r wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan o drafodaethau ar y materion canlynol ar y sail y byddai eu datgelu yn niweidiol i fudd y cyhoedd, oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

Rhoddwyd y gorau i recordio'r cyfarfod a gadawodd yr aelod o'r cyhoedd y cyfarfod.

**15. Mater Brys – Pryderon am y Ddôl Wyllt**

Roedd digwyddiad yn ddiweddar ar safle dôl wyllt Clôs y Nant pan ddaeth preswylwyr lleol wyneb yn wyneb â gweithwyr CSDd a oedd wrth eu gwaith. Yn sgil hyn, gwnaethant adael y safle heb gwblhau eu tasgau. Roedd yr Aelodau yn pryderu ynglŷn â'r ffordd roedd preswylwyr wedi mynd ati i leisio eu cwynion fel hyn, ac nid oeddynt yn gallu esgusodi'r ymddygiad hwn mewn unrhyw ffordd.

Gwnaeth y maer atgoffa'r Aelodau o'r camau a gymerwyd hyd yma gan gyngor y dref i geisio cydweithio â CSDd ar y mater hwn, gan gyfeirio at yr ffaith bod y cynnig i ddod o hyd i safle mwy addas ar gyfer datblygu dôl wyllt wedi cael ei wrthod.

Arweinodd hyn at drafodaeth hir am y digwyddiad anffodus hwn, anaddasrwydd y safle ac amharodrwydd CSDd i weithio gyda chyngor y dref i ddod o hyd i safle arall. Roedd cyngor y dref yn cydnabod bod hwn yn fater i CSDd ond roedd angen i'r Aelodau gynrychioli pryderon eu hetholwyr, gan iddynt gael eu hethol i wneud hyny. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y dylid ysgrifennu at y Prif Swyddog Gweithredol yn ailadrodd y cynnig i weithio gyda CSDd i ddod o hyd i safle arall a thynnu safle Clôs y Nant o'r prosiect dolydd gwyllt. Dylid anfon copi o'r llythyr at Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros y prosiect dolydd gwyllt. Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd**.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 12/01/2023 Cyfarfod Hybrid Llawn y Cyngor 7pm**

Llofnodwyd……………………………………………………………………….Y Cynghorydd Mike Elgin (Maer)